

## **POLISI DIOGELU PLANT**

Mae hyrwyddo lles cyffredinol pob plentyn yn rhan annatod o ethos yr ysgol sy'n cael ei hadlewyrchu yn ei holl bolisiâu, gan gynnwys pwyslais ar werthoedd megis hunan barch a pharch tuag at eraill.

Yn benodol bydd yr ysgol yn gweithredu yn unol â threfniadau Diogelu Plant yn ôl Llawlyfr Sir Gaerfyrddin. Rhoddir sylw arbennig i'r adrannau â ganlyn sy'n dynodi cyfrifoldeb arbennig yr Awdurdod Addysg Lleol a'r ysgol.

## **PWY SY'N BERTHNASOL?**

### **1) YR AWDURDOD LLEOL**

#### **DYLETSWYDD STATUDOL I YMCHWILIO**

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ymchwilio [Deddf Plant 1989, Adran 47] lle bynnag y mae ganddynt reswm digonol dros amau fod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol ac i asesu'n wrthrychol anghenion y plentyn a'r teulu gan gynnwys y perygl o gam-drin a'r angen am ddiogelu'r plentyn. Dylai'r broses ymchwilio olygu casglu gwybodaeth oddi wrth weithwyr proffesiynol allweddol eraill, a chysylltu ag asiantaethau eraill sy'n ymchwilio [e.e, yr heddlu, meddygon]. Dylid egluro dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol yr Awdurdod Lleol i bawb ar ddechrau'r ymchwiliad. Dylai'r Awdurdod Lleol benderfynu pa gamau, os o gwbl, sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r plentyn, e.e. diogelu yn y teulu [neu deulu ehangach], neu leoliad y tu allan i'r teulu. Dylid cymryd, unrhyw gamau mewn ymgynghoriad â'r asiantaethau eraill perthnasol, boed y plentyn yn byw gartref, gyda rhieni maeth, mewn cartref neu ysgol breswyl neu mewn unrhyw sefyllfa arall. Os yw'r plentyn yn symud i ardal arall dylid hysbysu Awdurdod Lleol yr ardal honno.

#### **PLANT MEWN ANGEN**

Mae Adran 17 o Ran III o'r Ddeddf Blant yn rhoi dyletswydd cyffredinol i Awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles unrhyw blentyn mewn angen ac i hyrwyddo magwraeth y plant hynny gan eu teuluoedd, cyn belled ag y bo hyn yn gydnaws â'u dyletswydd tuag at y plentyn o safbwynt lles, trwy gynnig amrywiaeth a lefel addas o wasanaethau. Mae Atodlen 2 o'r Ddeddf Blant yn cynnwys darpariaethau pellach a fwriadwyd i helpu plant mewn angen i barhau i fyw gyda'u teuluoedd ac yn gyffredinol i atal cam drin ac esgeulustod, methiant y berthynas yn y teulu â'r angen am alw ar y Llysoedd am gymorth. YR EGWYDDOR AR WASANAETHAU O FEWN CARTREF Y TEULU A LLE MAE PLANT YN CAEL EU LLETYA O DAN DREFNIADAU GWIRFODDOL YW GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA'R RHIENI AC YMGYNGHORI GYDA'R PLANT AR SAIL CYNLLUNIAU A PHENDERFYNIADAU Y CYTUNWYD ARNYNT AR Y CYD. Bwriadwyd i drefniadau o'r fath gynorthwyo'r rhiant ac i hyrwyddo nid tanseilio, awdurdod a rheolaeth y rhiant. Gall naill ai'r teulu eu hunain neu asiantaethau perthnasol, neu eraill glustnodi'r angen am gymorth.

## **CYDWEITHREDIAD EFFEITHIOL GYDA'R HOLL WEITHWYR PROFFESIYNOL AC ASIANTAETHAU**

Nid yw prif gyfrifoldeb yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn bychanu swyddogaeth yr asiantaethau eraill neu'r angen am i'r asiantaethau gydweithredu â'i gilydd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer plentyn neu deulu. Yn Adran 27 o Ddeddf Plant, nodir bod dyletswydd ar yr Awdurdodau Lleol, yr Awdurdodau Addysg, Awdurdodau Tai ac Awdurdodau Iechyd i gydweithredu i gyflawni eu dyletswyddau i gynorthwyo plant a'u teuluoedd.

### **MAE'R AWDURDOD LLEOL YN CYFLAWNI EI BWERAU I DDIOGELU PLANT TRWY'R ADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL.**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cyflawni ei bwerau yn ymwneud â diogelu plant trwy ei Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn hyn o beth, mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol dri phrif faes o gyfrifoldeb:-

(a) **YMCHWILIO** - Bydd pob honiad y gall plentyn fod mewn perygl yn cael ei ymchwilio yn unol ag Adran 47 o'r Ddeddf Plant.

(b) **RHWYSTRO** - Gall ymchwiliad arwain at drefniadau gofal neu fe all ddatgelu teulu sydd angen cymorth a chefnogaeth. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswyddau a phwerau dewisol i gynnig gwasanaethau i deuluoedd a phlant (neu i gynorthwyo grwpiau gwirfoddol i wneud hynny) a dyletswydd i hyrwyddo lles plant. Mae gan waith sy'n ymwneud â rhwystro camdriniaeth ran hanfodol i'w chwarae wrth ddiogelu plant.

(c) **PLANT YNG NGOFAL YR AWDURDOD LLEOL NEU SY'N CAEL EU LLETYA GANDDO** - Mewn achosion addas, ac ar gais person gyda chyfrifoldeb rhiant, mae'r awdurdod Lleol yn gweithredu gwasanaeth lletya i gynnig gofal dros dro i blant. Gall plant hefyd fod yng ngofal yr Awdurdod Lleol o ganlyniad i Orchymyn Llys.

Mae egwyddor y Ddeddf Plant yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol rannu cyfrifoldeb rhiant am y plentyn gyda phersonau eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant, ond lles y plentyn fydd y brif ystyriaeth bob amser.

Rhaid i'r lletya a ddarperir â'r trefniadau cyswllt ystyried yr angen am gynnal cysylltiadau'r plentyn gyda'i deulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymdeithasol eraill, oni cheir cyfarwyddyd i'r gwrthwyneb mewn Gorchymyn Llys.

Ym mhob sefyllfa lle bo plentyn mewn gofal, mae angen hefyd am gydwethrediad rhwng yr asiantaethau. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd i hysbysu'r Awdurdod Iechyd a'r Awdurdod Addysg am amgylchiadau plentyn. Dylent hwythau, yn eu tro, roi gwybodaeth i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am bopeth, sy'n berthnasol i'r plentyn, yn union fel y gwnaent petai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhiant.

## **CYFRIFOLDEB AWDURDOD ADDYSG LLEOL**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cyflawni ei bwerau a'i gyfrifoldebau dros addysg a gwasanaethau addysgol trwy ei Adran Addysg neu'r Awdurdod Addysg Lleol. Mae gan athrawon ran bwysig i'w chwarae, ond mae gan yr Adran gyfrifoldeb i sicrhau fod yr HOLL staff a gyflogir ganddi yn gwybod am, ac yn deall, y Dulliau Gweithredu Diogelu Plant. Mae gan bob Awdurdod Addysg swyddog penodedig sy'n gyfrifol am gydgysylltu hyfforddiant a dulliau gweithredu mewnol, cynghori staff ynglyn â cham-drin plant a chysylltu ag asiantaethau eraill.

## **RÔL YSGOLION MEWN RHWYSTRO CAM DRINIAETH**

Gall ysgolion chwarae rhan bwysig iawn mewn diogelu plant a rhwystro camdrin. Ym method a chynnwys cwricwlwm yr ysgol, bydd addysg bersonol a chymdeithasol yn helpu pobl ifanc i ddatblygu agweddau mwy realistig tuag at gyfrifoldebau eu bywyd fel oedolion, gan gynnwys dod yn rhiant. Gall darparu cyrsiau gofal plant fod yn gyfraniad ymarferol tuag at fod yn well rhieni. Yn ogystal, dylai ysgolion ystyried dysgu plant yn fwy uniongyrchol am y peryglon ynghlwm wrth gam-drin plant, y dulliau o ddiogelu eu hunain a chlustnodi oedolion a all eu helpu.

## **CYFEIRIO AC ADNABOD**

### **ARWYDDION A SYMPTOMAU O GAM-DRIN.**

#### **1. YR ARWYDDION CYNTAF O GAM-DRIN**

Nid presenoldeb anaf difrifol o reidrwydd yw'r arwydd cyntaf fod plentyn yn cael ei gam-drin. Gall pryderon fod plentyn yn cael ei gam-drin yn gorfforol gael eu deffro wrth weld cleisiau neu farciau ar gorff plentyn neu gall drwgdybiaeth o unrhyw ffurf ar gam-drin gael ei ddeffro gan sylwadau a wnaed gan blentyn, ei rieni neu ffrindiau, gan bethau y digwyddwyd eu clywed neu sylwi ar ymddygiad neu ymateb plentyn, neu ymwybyddiaeth fod teulu o dan straen ac y gall fod arno angen cymorth gyda gofalu am y plant neu gan nifer o ffactorau eraill.

Er nad yw'r sefyllfa efallai i'w gweld yn arbennig o ddifrifol mae'n werth cofio y gall cymorth buan i gynorthwyo teulu mewn trafferth atal camdriniaeth fechan rhag datblygu yn rhywbeth mwy difrifol.

Nid yw'r canlynol yn rhestr gynhwysfawr na chyflawn, ond mae'n rhoi arweiniad i'r llygwr ynglyn â'r anafiadau mwyaf cyffredin, nad ydynt yn anafiadau damweiniol ac arwyddion o gam-drin.

#### **2. CAM-DRIN CORFFOROL**

##### **DIAGNOSIS**

Ni ellir gor-bwysleisio na ddylai pobl broffesiynol heb gymwysterau meddygol ar unrhyw gyfrif geisio llunio diagnosis o anaf corfforol. Swyddogaeth personél heb gymwysterau meddygol yw sicrhau fod y plentyn yn derbyn triniaeth ac asesiad meddygol arbenigol cyn gynted â phosibl.

##### **CLEISIAU**

- ⊞ Peth anarferol iawn yw bod llygaid du cymesur yn ddamweiniol, er y gallant ddigwydd lle mae asgwrn y pen neu'r trwyn yn cael ei dorri a bod gwaed yn llifo o safle'r anaf i'r feinwe o gwmpas y llygad. Gall llygaid ddu unigol fod yn ganlyniad damwain neu gamdriniaeth. Mae angen ystyried yn ofalus lle bynnag y ceir anaf o gwmpas y llygad. Dylid nodi a yw cloriau'r amrannau wedi chwyddo ac yn dyner ac a oes difrod i'r llygad ei hun.
- ⊞ Cleisio a/neu niwed yn y geg neu o'i chwmpas, e.e. y ffrewynyn wedi rhwygo (yn enwedig mewn babanod bach).
- ⊞ Olion gafael ar freichiau - neu frest plentyn bach.
- ⊞ Olion bysedd ar wyneb, breichiau neu frest plentyn (e.e. gallech weld 3-4 o gleisiau bach ar un ochr i'r wyneb ac un ar yr ochr arall).
- ⊞ Cleisio cymesur (yn enwedig ar y clustiau).

- ⊖ Cleisio amlinellol (e.e. olion gwregys, ôl llaw)
- ⊖ Cleisio llinellol (yn enwedig ar y pen-ôl neu'r cefn)
- ⊖ Cleisio ar feinwe meddal, e.e. bochau, breichiau, heb esboniad amlwg.
- ⊖ Cleisio o oed gwahanol (yn enwedig yn yr un man, e.e. ar y pen-ôl)

Mae'r canlynol yn llefydd anghyffredin i gael cleisiau damweiniol:

- ⊖ Cefn, cefn y coesau, pen-ôl (ac eithrio weithiau ar hyd ymwthiadau esgyrnog yr asgwrn cefn)
- ⊖ Ceg, bochau, tu ôl y glust.
- ⊖ Bol, brest.
- ⊖ O dan y fraich.
- ⊖ Organau rhywiol, twll y pen-ôl (ond yn bosibl os yw'r plentyn yn dysgu reidio beic)
- ⊖ Gwddf

## **CNOADAU**

Gall y rhain adael ôl amlwg y dannedd. Mae cnoadau dynol yn hirgrwn neu a siap cilgant. Os yw'r pellter yn fwy na 3cm ar draws, mae'n rhaid iddynt gael eu hachosi gan oedolyn neu blentyn hyn gyda dannedd parhaol.

## **LLOSGIADAU / SGALDIADAU**

Gall fod yn anodd iawn gwahaniaethu rhwng llosgiadau damweiniol ac annamweiniol, ond fel canllaw cyffredinol, mae llosgiadau neu sgaldiadau sydd ag amlinelliad amlwg yn rhai amheus ac felly hefyd losgiadau o'r un dyfnder cyson dros ardal fwy a hefyd olion tasgu uwchben prif ardal y llosg (yn cael ei achosi gan hylif poeth yn cael ei daflu).

Cofiwch hefyd:

- ◆ Bydd oedolyn cyfrifol yn profi tymheredd y dwr yn y baddon cyn i blentyn fynd iddo.
- ◆ Mae plentyn yn annhebyg o eistedd o'i wirfodd mewn bath sy'n rhy boeth ac ni all sgaldio'i ben-ôl heb hefyd sgaldio'i draed.
- ◆ Bydd plentyn sy'n mynd i mewn i ddwr poeth o'i ewylllys ei hun yn ymdrechu i fynd allan eto a bydd yno olion tasgu.

- ◆ Gall llosgiadau bach crwn fod yn llosgiadau sigaret (ond gallant hefyd fod yn llosgiadau ffrithiant, ac yn ddamweiniol, os ydynt ar hyd ymwithiadau esgrynog yr asgwrn cefn.)

## **CREITHIAU**

Gall plant fod â chreithiau, ond dylid cymryd sylw o nifer anarferol fawr o greithiau o oed gwahanol (yn arbennig os oes yno hefyd gleisio cyfredol), creithiau o siap anaferol (e.e. rhai crwn o losgiadau sigaret posibl), neu greithiau mawr sydd wedi deillio o losgiadau neu anafiadau na dderbyniodd driniaeth feddygol.

## **ESGYRN WEDI TORRI**

Dylid amau presenoldeb y rhain os ceir poen, chwyddo a lliw rhyfedd dros asgwrn neu gymal. Ceir y toriadau annamweiniol mwyaf cyffredin i'r esgryn hir (h.y. breichiau, coesau, asennau). Mae'n anarferol iawn i blentyn dan flwydd oed dorri asgwrn yn ddamweiniol. Mae torri asgwrn hefyd yn boenus, ac mae'n anodd i riant fod heb wybod fod plentyn wedi cael ei anafu.

## **PWYNTIAU CYFFREDINOL**


Gall rhai cleisiau a marciau ymddangos yn ddibwys ynddynt eu hunain ond gall anafiadau cyson, hyd yn oed o natur ddibwys iawn, ddangos teulu mewn argyfwng, ac os na chymerir camau i weithredu, gall y plentyn gael ei niweidio yn fwy difrifol.

### 3. CAMDRINIAETH EMOSIYNOL

#### SIART CORFF

MANNAU CYFREDIN LLE  
CEIR NIWED NAD YW'N  
DDAMWEINIOL

MANNAU CYFREDIN LLE  
CEIR NIWED DAMWEINIOL





Gall camdriniaeth emosiynol gymryd ffurf methiant i gwrdd ag angen plentyn am gariad, sylw a symbyliad (er y rhoddir gofal corfforol da efallai), neu fod yna gamdriniaeth eiriol gyson, gwrthodiad, gwneud plentyn yn fwch dihangol, bygwth trais neu ymdrechion i ddychryn y plentyn. I'r gwrthwyneb gall rhai rhieni fod mor or-ofalus a meddiannol fel eu bod yn rhwystro'r plentyn rhag cael cysylltiad cymdeithasol normal neu weithgarwch corfforol normal.

Gall y ddwy sefyllfa fod yn anodd i'w disgrifio neu i'w dadansoddi, ond gallant gael effaith niweidiol tymor hir ar ddatblygiad plentyn. Gall plant sy'n dioddef camdriniaeth emosiynol arddangos y symptomau ymddygiadol canlynol:

- ◆ Glynu'n agos iawn neu geisio sylw yn ormodol.
- ◆ Hunan-barch isel,
- ◆ Difrawder.
- ◆ Bod yn ofnus neu'n encilgar.
- ◆ Ceisio plesio yn gyson.
- ◆ Bod yn or-barod i lunio perthynas ag unrhyw un, hyd yn oed dieithriaid.

Gall plant sy'n byw mewn cartrefi lle ceir trais priodasol, ffræo rheolaidd, rhieni'n gwahanu neu'n rhedeg i ffwrdd, gael eu niweidio'n emosiynol ac arddangos arwyddion o drallod. Os yw plant yn gweld ymddygiadau o'r fath neu'n cael eu tynnu i mewn i anghydfodau teuluol gallant ddod yn ddarnau chwarae yng ngemau eu rhieni. Gall plant sy'n gweld ymddygiad eu rhieni pan font o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, fod mewn trallod emosiynol yn yr un modd, a hyd yn oed gall fod disgwyl iddynt chwarae rhan yn eu teuluoedd sy'n anaddas i'w hoed ac felly ddinistrio'u cyfle i ddatblygu neu gael profiadau fel plant normal.

#### **4. ESGEULUSTOD CORFFOROL**

Gellir amharu ar dyfiant a datblygiad plentyn trwy iddo beidio â chael digon o fwyd a gofal, canmoliaeth ac anogoeth neu symbyliad.

Gall plentyn sy'n cael ei esgeuluso'n gorfforol neu sy'n methu â ffynnu arddangos rhai o'r nodweddion canlynol;

- ⊃ Bod yn fyr ac o dan bwysau ar gyfer ei oedran cronolegol (yr hyn a elwir yn 'feintioli babanaidd')
- ⊃ Croen oer a brith gyda lliw pinc neu borffor ar yr ymylon.

- Aelodou wedi chwyddo gyda doluriau tyllog sy'n araf i wella.
- Y croen mewn cyflwr arbennig o wael o gwmpas y man lle dodir clwt babi, gyda'r croen wedi'i ysgythru ac yn anghyfforddus.
- Gwallt tenau, sych, moelni a nychtod corfforol cyffredinol.
- Bol mawr a charthion rhydd a achosir efallai gan ddeiet gwael, prydau afreolidd a thyndra.
- Dolur rhydd.
- Archwaeth eithriadol.
- Plentyn yn ffynnu oddi cartref.
- Diffyg ymateb mewn plentyn.
- Aros wedi'i rewi yn yr unfan am amser annaturiol o hir.

## **5. CAMDRINIAETH RYWIOL**

Bydd rhai achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn dod i'r amlwg trwy hysbysu asiantaeth fel yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Meddygon Teulu, Ysgolion neu weithwyr eraill sy'n gofalu am blant, ond mewn sawl achos mae adnabod camdriniaeth rywiol yn dibynnu ar ymateb pobl broffesiynol i arwyddion corfforol ac ymddygiadol neilltuol, a bod yn agored i'r posibilrwydd o gamdriniaeth rywiol.

Nodir isod rai nodweddion a all arwyddo fod y plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol. Mae'r posibiliad fod y plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol yn cynyddu pan fydd sawl ffactor yn bresennol ar yr un pryd.

### **ARWYDDION CORFFOROL**

Er bod rhai o'r rhain yn arwydd pendant neu'n arwydd posibl o gamdriniaeth rywiol, mae eraill yn anafiadau cyffredin, nad ydynt fel rheol yn bresennol o ganlyniad i gamdriniaeth rywiol.

### **Y MANNAU RHYWIOL A'R PEN-ÔL**

- (a) Cleisiau, cripiadau neu anafiadau bach eraill, nad ydynt yn ddamweiniol. Noder: ni achosir cleisio o gwmpas yr organau rhywiol wrth i blentyn fastwrbio;
- (b) Yr wrethra (sef y bibell sy'n arwain o'r bledren at du allan y corff), twll y pen-ôl neu'r wain wedi ymledu'n annormal;
- (c) Arwyddion o heintiau a drosglwyddir trwy gyfrwng rhyw;

- (ch) Semen yn y wain, twll y pen-ôl neu ar du allan i'r organau rhywiol;
- (d) Pethau yn yr wrethra, y bledren, y wain neu ym mhibell y pen-ôl na ddylent fod yno;
- (dd) Cosi, briw, llif neu waedu na ellir ei egluro;
- (e) Poen wrth basio dwr.

## **CYFFREDINOL**

- a) Cleisiau, cripiadau, cnoadau, neu anafiadau eraill i'r bronnau, y pen-ôl, gwaelod y bol neu'r cluniau;
- b) Dillad isaf neu ddillad y gwely wedi'u rhwygo, wedi'u staenio neu'n waedlyd neu dystioloeth fod y dillad wedi cael eu tynnu a'u hailwisgo, e.e. fest neu bants wedi'u gosod y tu chwith allan
- c) Semen ar y croen neu ar y dillad;
- ch) Beichiogrwydd mewn plant yn eu harddegau, yn enwedig pan fydd enw'r tad yn annelwig neu'n gyfrinach;
- d) Heintiau dwr sy'n dychwelyd dro ar ôl tro;
- dd) Anhawster i gerdded neu eistedd: cwyno fod poen yn y pelfis:
- e) Nodweddion seicosomatig fel poen yn y bol neu boen pen, ac ati sy'n digwydd dro ar ôl tro neu ffitiau hysteraidd neu lewygu a gamddangosir ambell waith fel epilepsi.

## **CYFFREDINOL**

Mae llawer o'r rhain yn nodweddion cyffredin mewn plant sy'n dioddef cythrwfl emosiynol o bob math, ond ambell dro gallant fod yn arwydd o gamdriniaeth rywiol.

- ⊗ Anallu i ymddiried mewn oedolion cyfarwydd, neu fod ag ofn amlwg o oedolion yn enwedig plant a gafodd eu bygwth neu eu cam-drin o dan orfodaeth;
- ⊗ Anallu difrifol i gysgu, gydag ofnau, ffobiâu, breuddwydion neu hunllefau byw, a'r rheini ambell dro yn cynnwys agweddau rhywiol amlwg neu ddirgel;
- ⊗ Plant ac oedolion yn dangos cariad amhriodol tuag at ei gilydd, gan gynnwys ymddwyn yn rhywiol o chwaraus o flaen eraill fel pe baent yn gariadon yn hytrach nag yn oedolyn a phlentyn;
- ⊗ Ymneilltuo cymdeithasol, neu fod perthynas y plentyn gyda phlant o'r un oedran yn dirywio'n sydyn. Bydd y plentyn yn chwarae ar ei ben ei hun ac yn mynd i fyd preifat / dychmygol;

- ⊖ Ymddygiad sy'n arwyddo bod roliau'r cartref yn cael eu newid, e.e. merch yn cymryd rôl y fam yn y teulu p'un ai yw'r fam yn bresennol ai peidio;
- ⊖ Ymddygiad sy'n arwyddo bod y plentyn yn llithro, e.e dechrau gwlychu'r gwely yn sydyn;
- ⊖ Newidiadau sydyn mewn tymer neu ymddygiad, e.e ymdawelu, tristau, ymddwyn yn sarrug, encilio;
- ⊖ Newidiadau yn y patrwm bwyta, fel colli archwaeth at fwyd, bod yn gysedlyd tuag at fwyd, gorymddidori mewn bwyd;
- ⊖ Anufuddhau, ceisio sylw, bod yn aflonydd a diamcan, methu â chanolbwyntio.
- ⊖ Diffyg hunan-barch a cheisio peidio â bod yn ddeniadol, iselder ysbryd, ymateb fel delw;
- ⊖ Ffugio ymddygiad aeddfed neu o'r-ufuddhau yn amlwg, yn aml yn cuddio poen meddwl a dicter.

## ARWYDDION YMDDYGIADOL

Nid yw'r un o'r canlynol yn arwyddion pendant o gamdriniaeth rywiol a gallent fod y arwyddion o ddatblygiad normal neu yn dystiolaeth o bethau eraill sy'n effeithiol ar ymddygiad plentyn. Mae'r amheuaeth yn cynyddu pan fydd mwy nag un yn bresennol ar yr un pryd, neu'n ymddangos yn anaddas ar gyfer oed y plentyn.

## RHYWIOL

- (a) Plentyn sy'n awgrymu gweithgarwch neu wybodaeth rywiol trwy eiriau, chwarae neu luniau, sy'n amhriodol neu fod y teulu'n cadw cyfrinachau neu bethau sy'n peri dirgelwch neu'n ei wneud yn anghyfforddus gartref neu yn yr ysgol, ond sydd ofn ymyrraeth. (Gall dosbarthiadau addysg rhyw arwain rhai plant yn sydyn i holi eu hunain beth sydd wedi bod yn digwydd iddynt, a hynny am sawl blwyddyn weithiau):
- (b) Plentyn gydag ymwybyddiaeth rywiol eithafol a gwybodaeth hyderus am weithgareddau rhywiol oedolion; un sy'n chwarae gemau rhywiol nad yw'n briodol ar gyfer ei oed, gyda phlant o'r un oedran, gyda theganau neu gyda'i hunain; neu blentyn sy'n ymddwyn yn rhywiol bryfoclyd gydag oedolion. ( Dyma'r math o ymddygiad rhywiol anaeddfed a all arwain at gamdriniaeth rywiol bellach);
- (c) Plentyn hyn sy'n ymddwyn yn eofn tuag at faterion rhywiol, gan ymddwyn yn aml mewn ffordd sy'n gosod y plentyn ar wahân i weddill y plant o'r un oedran ag ef, ac sy'n achosi oedolion i'w feirniadu neu i ymateb trwy geisio ei ddenu yn rhywiol;
- (ch) Anaml iawn y bydd plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn gofyn am wybodaeth am ddulliau atal cenhedlu, ond gallant fod yn gofyn am gymorth.

## **YMDYGIAD SY’N ARBENNIG O AMLWG YN YR YSGOL**

- Anallu i greu perthynas gyda phlant o’r un oedran ac i wneud ffrindiau;
- Anallu i ganolbwyntio, bod ag anawasterau dysgu, neu aflwyddiant sydyn mewn gwaith ysgol. Ar gyfer rhai plant sy’n cael eu cam-drin yn rhywiol, gall ysgol fod yn noddfa – yr unig lle lle gallant ymddwyn fel plentyn naturiol, ac mae’n bosibl y byddent yn cyrraedd yn gynnar, yn anfodlon i ymadael ac yn gwneud gwaith da;
- Y plentyn neu’r rhiant yn osgoi ac yn ofni cael archwiliad meddygol yn yr ysgol;
- Anfodlonrwydd amlwg i ymuno mewn gweithgarwch corfforol, neu i newid dillad ar gyfer gweithgareddau corfforol.

## **PLANT YN HONNI IDDYNT GAEL EU CAM-DRIN**

Lle bo hynny’n bosibl, a chyn i’r Gwasanaethu Cymdeithasol a’r Heddlu gynnal gyfweiliad mwy trwyadl, dylid dilyn yr egwyddorion sylfaenol canlynol ym mhob achos lle bydd plentyn yn honni iddo gael ei gam-drin;

- a) Gwrandewch ar yr hyn y mae’r plentyn yn ei ddweud yn hytrach na cheisio ei holi.
  - b) Peidiwch fyth â thorri ar draws plentyn sy’n galw digwyddiadau arwyddocaol i gof.
  - c) Gwnewch gofnod o’r drafodaeth, gan ofalu eich bod yn nodi’r amser, lleoliad, pwy oedd yn bresennol yn ogystal â’r hyn a ddywedwyd.
- ch)Gwnewch gofnod o bob digwyddiad dilynol.

**COFIWCH DDWEUD WRTH YR ADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL NEU’R HEDDLU YN DDI-OED OS CREDWCH FOD PLENTYN YN CAEL EI GAM-DRIN NEU MEWN PERYGL O GAEL EI GAM-DRIN.**

## **CYFEIRIO PLENTYN I GAEL EI DDIOGELU**

Ym mhob achos lle bo unrhyw berson yn amau fod plentyn yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin, dylid dilyn y camau canlynol yn ddi-oed:

### **1) YN YSTOD YR ORIAU GWAITH ARFEROL**

Cysylltwch â Thîm Gofal Plant yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n gweithredu yn yr ardal lle cafwyd plentyn ar yr adeg yr amheuir iddo gael ei gam-drin, a gofynnwch am y Gweithwyr Cymdeithasol ar Ddyletswydd neu Reolwr Tîm. (gweler Atodiad A am gyfeiriadau a rhifau ffôn).

Rhaid i gyfeiriadau a wnaed gan weithwyr proffesiynol eu cadarnhau mewn ysgrifen cyn pen tri diwrnod gwaith (gweler trefniadau’r gwahanol asiantaethau).

## **2) AR ÔL ORIAU GWAITH ARFEROL**

Cysylltwch â'r Gweithwyr Cymdeithasol ar Ddyletswydd yn yr ardal lle cafwyd y plentyn ar yr adeg yr amheuir iddo gael ei gam-drin. (Gweler Atodiad A am rifau ffôn). Os nad yw'r gweithwyr Cymdeithasol ar Ddyletswydd ar gael, cysylltwch â'r Heddlu yn ddi-oed.

Rhaid i gyfeiriadau a wnaed gan weithwyr proffesiynol eu cadarnhau mewn ysgrifen cyn pen tri diwrnod gwaith.

## **3) MEWN ARGYFWNG**

Ym mhob argyfwng, dylid cyfeirio'r mater at yr Heddlu yn ddi-oed. Os oes angen cymorth meddygol brys ar y plentyn, gofynnwch am y Gwasanaeth Ambiwlans hefyd. Ffoniwch 999 am yr Heddlu a'r Ambiwlans.

## **CYFRINACHEDD PROFFESIYNOL**

### **1. CYFRINACHEDD PROFFESIYNOL – YR ANGEN AM RANNU GWYBODAETH**

Gwraidd llwyddiant cydweithredu rhyngasiantaethol i ddiogelu plant yw cyfnewid a rhannu gwybodaeth berthnasol. Ni fwriedir i reolau cyfrinachedd proffesiynol rwystro gweithwyr proffesiynol rhag rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelu plant. Mae gan pob gweithiwr proffesiynol ddyletswydd i rannu gwybodaeth gyda'r Adran Gwasanaethu Cymdeithasol a'r Heddlu fel asiantaethau archwilio ym mhob achos lle maent yn amau fod plentyn wedi cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin. Mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn gymwys wrth rannu'r holl wybodaeth berthnasol gydag asiantaethau eraill mewn cynadleddau diogelu plant.

**YM MHOB ACHOS LLE MAE PLENTYN WEDI CAEL EI GAM-DRIN NEU LLE MAE PERYGL IDDO GAEL EI GAM-DRIN, CEIR DYLETSWYDD I RANNU POB GWYBODAETH BERTHNASOL. YM MHOB SEFYLLFA O'R FATH RHAIID I DDIOGELWCH Y PLENTYN CAEL Y FLAENORIAETH.**



## YR ADRAN ADDYSG – YSGOLION

- 1) Mae athrawon ac oedolion eraill mewn ysgolion mewn sefyllfa arbennig o addas i sylwi ar arwyddion o gam-drin plant. Mae'n bwysig felly, y telir sylw neilltuol os amheuir fod plentyn yn cael ei gam-drin. O ganlyniad, mae angen am linellau cyfathrebu systematig a chlr o fewn ysgolion, rhwng ysgolion a Swyddfeydd Addysg Rhanbarthol Yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.

### GWEITHREDU AR UN WAITH PAN AMHEUIR FOD PLENTYN YN CAEL EI GAM DRIN NEU MEWN PERYGL O GAEL EI GAM-DRIN.

Pan fydd athro/athrawes yn amau fod plentyn wedi cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin. **RHAID** cadw at y trefniadau canlynol:

- a) Mae'n hanfodol fod y prifathro yn cael ei hysbysebu ar un waith trwy gyfrwng y llinellau cyfathrebu mewnol sydd mewn grym yn yr ysgol. Os nad yw'r prifathro ar gael dylid dweud wrth y Dirprwy Brifathro.
  - b) Ar ôl asesu'r sefyllfa, rhaid i'r prifathro neu'r Dirprwy Brifathro gysylltu â Swyddfa agosaf y Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol **AR UNWAITH** a gofyn am y Rheolwr Tîm Gofal Plant. Os nad yw'r Rheolwr Tîm ar gael, dylai'r Prifathro ofyn am y Gweithwyr Cymdeithasol ar Ddyletswydd.
  - c) Os dywedir wrth Brifathro fod plentyn wedi dweud iddo / iddi gael ei gam-drin yn rhywiol, **NI DDYLAI'R** Prifathro gynnal cyfweiliad arall â'r plentyn i gadarnhau pryderon yr athro / athrawes.
  - d) Ar ôl hysbysebu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol o'i amheumon, rhaid i'r Prifathro gysylltu â'r Swyddfa Addysg Ranbarthol **AR UNWAITH** a gofyn am y Swyddog Addysg Rhanbarthol, neu ei gyd-gysylltydd diogelu plant.
  - e) Rhaid anfon cadarnhad ysgrifenedig am bob cyfeiriad i Swyddfa Tîm yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Addysg Rhanbarthol yn union ar ôl cysylltu â hwy dros y ffôn i sicrhau y derbynir y cadarnhad ysgrifenedig **CYN PEN 24 AWR**.
- 
- f) Os amheuir fod plentyn wedi cael ei gam-drin, gall y Prifathro / Prifathrawes ganiatáu i'r plentyn gael ei gyfweld yn yr ysgol gan yr Heddlu a / neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ar yr amod fod ef /hi neu yr un a enwebwyd ganddo ef / ganddi hi hefyd yn bresennol. Rhaid i'r prifathro / Prifathrawes neu yr un a enwebwyd ganddo ef / ganddi hi ddarllen unrhyw ddatganiad a wneir o ganlyniad i gyfweiliad a gynhelir yn yr ysgol, a'i arwyddo i dystio ei fod yn gofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd.
  - g) Os yw'r plentyn ar fin ymadael â'r ysgol, bydd y Prifathro trwy ymgynghori â'r Rheolwr Tîm neu Weithwyr Cymdeithasol, yn penderfynu ar y cam nesaf i'w gymryd.

MAE’N HANFODOL BWYSIG FOD YR ADRAN GWASANAETHAU  
CYMDEITHASOL YN CAEL GWYBODAETH AM Y GAMDRINIAETH HONEDIG  
YN DDI-OED.

## TREFNIADAU MEDDYGOL

Pan fo anaf ar blentyn yn yr ysgol a lle ceir achos i gredu iddo gael ei achosi gan gamdriniaeth, dylid cymryd y camau canlynol:

- a) Os yw'r anaf yn un difrifol, ac os ydyw, ym marn y Prifathro, yn hawlio sylw meddygol buan, dylid mynd â'r plentyn i adran ddamweiniau yr ysbyty lleol.
- b) Rhaid hysbysu Rheolwr Tîm yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, neu'r gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd os nad yw'r Rheolwr ar gael, **AR UNWAITH** os digwydd hyn, o'r herwydd mae posib y bydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol am drefnu i'r plentyn gael ei archwilio gan Baediatregydd ar ôl cyrraedd yr ysbyty. Dylid egluro yr amheuir fod y plentyn yn cael ei gam-drin.
- c) Dylid hysbysebu'r Swyddog Addysg Rhanbarthol ar unwaith os cymerir y camau hyn.

## CAMAU DILYNOL

- a. Rhaid anfon cadarnhad ysgrifenedig am bob cyfeiriad i Swyddfa Tîm yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Addysg Rhanbarthol yn union ar ôl cysylltu â hwy dros y ffôn i sicrhau y derbynir y cadarnhad ysgrifenedig **CYN PEN 24 AWR**.
- b. Mae'n hanfodol fod yr wybodaeth yn ymwneud â'r gamdriniaeth dybiedig yn cael ei chofnodi cyn llawned ac mor gywir â phosibl cyn gynted ag y bo modd.

## 2. GWEITHWYR PROFFESIYNOL ERAILL YN Y GWASANAETH ADDYSG

Dylai gweithwyr proffesiynol, fel Seicolegwyr Addysg, Athrawon Ymgynghorol, Athrawon Teithio, Tiwtoriaid Cartref, Swyddogion Lles Addysg, ac ati, sy'n ymwneud â phlant, gadw'n dynn at y canllawiau canlynol;

- a) os ydynt, tra'n ymweld â phlant yn yr ysgol, yn amau fod plentyn yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin, dylid hysbysu Prifathro, neu Ddirprwy Brifathro yr ysgol **AR UNWAITH** a fydd yn dilyn y camau a nodwyd eisoes.

- b) Os ydynt, tra'n ymweld â phlentyn yn ei gartref, yn amau ei fod yn cael ei gam-drin, dylai'r gweithwyr proffesiynol nodi'r ffaith hon a chofnodi unrhyw fanylion yn ymwneud â hi. Yna dylid hysbysu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, y Rheolwr Tîm Gofal Plant neu'r Gweithwyr Cymdeithasol ar ddyletswydd, y Prifathro a'r Swyddog Rhanbarthol **AR UNWAITH**.
- c) Rhaid anfon cadarnhad ysgrifenedig am bob cyfeiriad i Swyddfa Tîm yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Addysg Rhanbarthol yn union ar ôl cysylltu â hwy dros y ffôn i sicrhau y derbynnir y cadarnhad ysgrifenedig **CYN PEN 24 AWR**.

**YMCHWILIO I HONIADAU O GAM-DRIN PLANT GAN WEITHWYR  
PROFFESIYNOL Y MAENT WEDI CAEL CYSWLLT PROFFESIYNOL A HWY.**

1. Yn rhinwedd eu swydd, gall gweithwyr proffesiynol ddod ar draws honiadau a cham-drin plant lle bo'r person sy'n cael ei ddrwgdybio / ei gyhuddo o gam-drin yn weithiwr proffesiynol o ddisgyblaeth arall. Rhaid i'r gweithiwr proffesiynol gyda'r pryder gyfeirio pob honiad o'r fath at Swyddog Adrannol perthnasol yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol neu yn ei absenoldeb ef / hi, Rheolwr Tîm (Gofal Plant) y rhanbarth. Gwneir y cyfeiriad gan gadw cyfrinachedd proffesiynol.

**Diogelu Plant**

**YSGOL CYNWYL ELFED**

**Dylid cysylltu ar unwaith â**

Mr A Davies (Pennaeth)

Ysgol Cynwyl Elfed 01267-281407

**Yn absenoldeb Mr Davies y person cyswllt yw**

Mrs E Sanson (Athrawes) neu

Mrs W Smith (Athrawes) neu

Miss J Jones (Athrawes)

**Y Llywodreithwr a chyfrifoldeb am Ddiogelu Plant yw Mrs Llinos Thomas.**

## **ATODIAD A**

### **TÎMAU GOFAL PLANT YR ADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (YN YSTOD ORIAU GWAITH)**

#### **RHANBARTH CAERFYRDDIN**

Tîm Gofal Plant, (01558) 822485  
Stryd Rhosmaen,  
Llandeilo.

#### **RHANBARTH LLANELLI**

Tîm Gofal Dwyrain Llanelli (01554) 774951  
5 Heol Goring,  
Llanelli.

### **GWEITHWYR CYMDEITHASOL AR DDYLETSWYDD AR ÔL YR ORIAU GWAITH ARFEROL**

#### **RHIF FFÔN: RHANBARTH CAERFYRDDIN**

Rhydaman (01269) 592222  
Caerfyrddin a Dinefwr (01558) 825317  
Caerfyrddin (01267) 222288

#### **RHIF FFÔN: RHANBARTH LLANELLI** (01554) 742142/772222

#### **RHIF FFÔN CANOLOG:**

Gweithwyr Cymdeithasol Caerfyrddin (01267) 234567

**RHIF FFÔN YR HEDDLU:** Caerfyrddin (01267) 232000